# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Ebrill 2023

Amser: 12.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

---

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(12.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(12.30 - 12.35) (Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 - Papur 1 - Adroddiad drafft

### 2.1 SL(6)343 - Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Awdurdodiadau ac Addasiadau i Awdurdodiadau) (Cymru) 2023

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(12.35 - 12.40)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol 'Gwnaed'**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.1 SL(6)341 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau Bwyd, a Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 2 – 5)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 2 – Adroddiad drafft

**3.2 SL(6)345 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Absenoldeb Profedigaeth Rhiant ac Absenoldeb Rhiant a Rennir) 2023**

(Tudalennau 6 – 7)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 3 – Adroddiad drafft

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

(12.40 – 12.45)

**4.1 SL(6)336 – Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023**

(Tudalennau 8 – 14)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 4 – Adroddiad

LJC(6)-12-23 – Papur 5 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 14 Ebrill 2023

LJC(6)-12-23 – Papur 6 – Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 31 Mawrth 2023

**4.2 SL(6)340 – Gorchymyn Contractau Adeiladu (Eithrio) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 15 – 21)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 7 – Adroddiad

LJC(6)-12-23 – Papur 8 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 17 Ebrill 2023

LJC(6)-12-23 – Papur 9 – Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 31 Mawrth 2023

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 6, 9, ac 10

(12.45)

## 6 Bil Bwyd (Cymru): Adroddiad drafft

(12.45 - 13.05) (Tudalennau 22 - 64)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 10 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## (Sesiwn Gyhoeddus)

## 7 Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol

(13.05 - 13.10)

### 7.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Iechyd Planhigion a Chyflyrau Ffytoiechydol (Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw a Phlâu Planhigion) (Diwygio) 2023

(Tudalennau 65 - 66)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 11 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 30 Mawrth 2023

### 7.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Diwygiadau deddfwriaethol i ganiatáu newid mewn Seroteipio Salmonela

(Tudalennau 67 - 69)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 12 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 3 Ebrill 2023

**7.3 Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau REACH (Diwygio) 2023**

(Tudalen 70)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 13 – Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 12 Ebrill 2023

## 8 Papurau i'w nodi

(13.10 – 13.25)

**8.1 Gohebiaeth gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Llywydd: Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol**

(Tudalen 71)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 14 – Llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Llywydd, 28 Mawrth 2023

**8.2 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd).**

(Tudalen 72)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 15 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, 29 Mawrth 2023

**8.3 Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Papur Gwyn ar Ddiwygio Etholiadol**

(Tudalennau 73 – 74)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 16 – Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 30 Mawrth 2023

**8.4 Datganiad ysgrifenedig gan y Prif Weinidog: Diweddariad ynghylch Diwygio'r Senedd**

(Tudalennau 75 – 76)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 17 – Datganiad ysgrifenedig gan y Prif Weinidog, 4 Ebrill 2023

**8.5 Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Bil Ardrethu Annomestig Llywodraeth y DU**

(Tudalennau 77 - 78)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 18 – Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 5 Ebrill 2023

**8.6 Datganiad ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi: Diweddariad ar Fesurau Rheoli Ffiniau**

(Tudalennau 79 - 80)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 19 – Datganiad ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, 5 Ebrill 2023

**8.7 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at y Llywydd: Bil Dioddefwyr a Charcharorion**

(Tudalennau 81 - 82)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 20 – Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at y Llywydd, 11 Ebrill 2023

**8.8 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil Caffael**

(Tudalennau 83 - 87)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 21 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 18 Ebrill 2023

LJC(6)-12-23 – Papur 22 – Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 11 Ebrill 2023

**8.9 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid at Gadeiryddion y Pwyllgorau: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

(Tudalennau 88 - 90)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 23 – Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at Gadeiryddion y Pwyllgorau, 19 Ebrill 2023

**8.10 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

(Tudalennau 91 – 94)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 24 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 19 Ebrill 2023

LJC(6)-12-23 – Papur 25 – Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 23 Mawrth 2023

## (Sesiwn Breifat)

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ynghylch y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol: Adroddiad drafft

(13.25 – 13.35) (Tudalennau 95 – 101)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 26 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 10 Cytundebau rhyngwladol

(13.35 – 13.40) (Tudalennau 102 – 105)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-12-23 – Papur 27 – Papur briffio [Saesneg yn unig]

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 24 Ebrill 2023

## SL(6)343 – Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Awdurdodiadau ac Addasiadau i Awdurdodiadau) (Cymru) 2023

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae’r Rheoliadau hyn yn awdurdodi rhoi ar y farchnad, yng Nghymru, gynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig penodedig at ddibenion Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig. Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn addasu manylion deiliaid yr awdurdodiad ar gyfer nifer o awdurdodiadau presennol.

Ers 1 Ionawr 2021, mae Prydain Fawr wedi bod yn gyfrifol am asesiadau risg ac awdurdodiadau cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Yng Nghymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy’n gyfrifol am asesu risg cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Fel yr ‘awdurdod priodol’, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ar awdurdodiadau mewn perthynas â Chymru. Mae awdurdodiadau yn ddilys am ddeng mlynedd a chaiff deiliaid awdurdodiad wneud cais i adnewyddu’r awdurdodiad ar gyfer marchnata parhaus.

Mae’r wyth cais Organeddau a Addaswyd yn Enetig yn cynnwys chwe chais newydd a dau gais adnewyddu. Mae Organeddau a Addaswyd yn Enetig wedi’u hawdurdodi i’w defnyddio yn yr UE. Mae deddfwriaeth gyfatebol wedi’i llunio yn Lloegr a’r Alban a bydd y rheoliadau ar draws Prydain Fawr yn dod i rym ar 26 Ebrill 2023.

**Rhiant-Ddeddf:** Rhiant-Ddeddf: Erthyglau 7(3), 19(3) a 35(3)(b) o Reoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig

**Fe’u gwnaed ar:** 28 Mawrth 2023

**Fe’u gosodwyd ar:** 29 Mawrth 2023

**Yn dod i rym ar:** 26 Ebrill 2023

Eitem 3.1

# SL(6)341 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau Bwyd, a Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth, o ran Cymru, ynghylch awdurdodiadau cynhyrchion bwyd rheoleiddiedig. Maent hefyd yn gwneud mân gywiriadau i gyfraith bwyd a chyfraith bwyd anifeiliaid

- Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer awdurdodi, o ran Cymru, roi ar y farchnad a defnyddio'r ychwanegyn bwyd E 960c (*rebaudiosid M a gynhyrchir drwy addasu glycosidau stefiol o Stevia ag ensymau*), newid y cofnodion awdurdodi presennol ar gyfer yr ychwanegyn bwyd E 960 (*glycosidau stefiol*) i nodi E 960a (*glycosidau stefiol o Stevia*), darpariaethau trosiannol cysylltiedig ac yn gwneud mân gywiriadau.
- Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer awdurdodi, o ran Cymru, roi ar y farchnad a defnyddio'r cyflasyn bwyd "*3-(1-((3,5-deumethylisocsasol-4-yl)methyl)-1H-pyrasol-4-yl)-1-(3-hydrocsybensyl)imidasolidin-2,4-dion*".
- Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn ymestyn yr awdurdodiad presennol ar gyfer y bwyd newydd "burum pobi sydd wedi ei drin ag UV (*Saccharomyces cerevisiae*)", i gynnwys categorïau bwyd penodedig ychwanegol, gan awdurdodi rhoi ar y farchnad bowdr madarch fitamin $D_2$ newydd fel bwyd newydd i'w ddefnyddio yn y categorïau bwyd penodedig.
- Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys mân gywiriadau i is-offerynnau Cymreig amrywiol ar gyfraith bwyd a chyfraith bwyd anifeiliaid.

Daeth Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Ebrill 2023. Daw Rhannau 2, 3 a 4 i rym ar 15 Mai 2023.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pum pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Rheoliad 2 a pharagraff 4(h) o Atodlen 1 yn rhoi E-rifau "*E 960a ac E 960c*" yng nghategori 05.1 yn y tabl sy'n ymddangos yn Rhan E o Atodiad 2 i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008. Mae hyn yn awdurdodi defnyddio'r E-rifau hynny fel ychwanegion bwyd mewn rhai cynhyrchion coco a siocled.

Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hefyd yn mewnosod cyfeiriad at droednodyn "(1)" mewn perthynas â'r awdurdodiad, sydd ddim yn gyfeiriad at droednodyn sy'n ymddangos o fewn categori 05.1 yn y tabl. Felly, ymddengys bod gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r awdurdodiad ar goll.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae Rheoliad 2 a pharagraff 4(i)(ii) o Atodlen 1 yn rhoi E-rifau "*E 960a ac E 960c*" yng nghategori 05.2 (melysion eraill gan gynnwys micro-felysion ar gyfer puro'r anadl) o'r tabl yn Rhan E o Atodiad 2 i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008. Mae'r cofnod a roddwyd yn lle'r testun gwreiddiol yn cynnwys y cyfyngiad a ganlyn ar yr awdurdodiad: "o*nly cocoa, milk, dried-fruit-**based** **[pwyslais wedi'i ychwanegu]** or fat-based sandwich spreads,...".*

Ymddegnys bod y geiriad hwn yn awdurdodi defnyddio'r E-rifau uchod ar gyfer dau fath penodol o daeniad brechdanau (sef taeniadau brechdanau wedi'u seilio ar ffrwythau sych a thaeniadau brechdanau sydd wedi'u seilio ar fraster). Fodd bynnag, nid yw'n glir ai dyma yw bwriad y gwaith drafftio wrth gymharu geiriad y cyfyngiad hwnnw â chyfyngiadau presennol tebyg yng nghategori 05.2 o'r tabl, sy'n gwneud y cyfeiriad a ganlyn "*only cocoa, milk, dried fruit or fat-based sandwich spreads,...*".

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 2 ac is-baragraffau (o), (p) a (q) o baragraff 4 yn Atodlen 1 yn rhoi awdurdodiad ar gyfer E-rifau "*E 960a ac E 960c*" yn lle "*E 960*" ar gyfer categorïau amrywiol o felysyddion bwrdd, sef melysyddion ar ffurf hylif, ar ffurf powdr ac ar ffurf tabledi yn y drefn honno. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdodiadau a roddwyd yn lle'r testun gwreiddiol yn pennu a ellir ychwanegu'r ychwanegion yn unigol neu mewn cyfuniad, sy'n groes i awdurdodiadau eraill yn y tabl yn Rhan E o Atodiad 2 i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008, sy'n cyfeirio at E-rifau gyda'i gilydd. Felly, nid yw'n glir ar unwaith a yw hwn yn hepgoriad bwriadol ac, os felly, sut y dylid dehongli'r awdurdodiad ar gyfer yr ychwanegion penodol hyn.

**4. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 3 ac Atodlen 2 yn diwygio'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 231/2012 drwy roi "E 960a Steviol Glycosides from Stevia" yn bennawd ar gyfer y cofnod presennol sy'n cyfeirio at "E 960 Steviol Glycosides", a mewnosod cofnod newydd ar gyfer E 960c ("*rebaudiosid M a gynhyrchir drwy addasu glycosidau stefiol o Stevia ag ensymau.*").

Fodd bynnag, mae Erthygl 4 o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 231/2012 (Dod i rym) yn parhau i gyfeirio at fanyleb a nodwyd yn yr Atodiad ar gyfer "steviol glycosides (E 960)", nad yw'n ymddangos yn yr Atodiad mwyach o ganlyniad i'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 6 ac Atodlen 5 yn diweddaru'r rhestr o fwydydd newydd awdurdodedig yn yr Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2470 drwy fewnosod cofnod newydd sy'n awdurdodi powdr madarch fitamin fitamin $D_2$ newydd fel bwyd newydd i'w ddefnyddio mewn categorïau penodol o fwyd.

Mae'r rhestr o fwydydd newydd yn yr Atodiad yn cynnwys dau dabl. Mae "Tabl 1" yn rhestru'r holl fwydydd newydd awdurdodedig ac o dan ba amodau y gellir defnyddio'r bwydydd hyn, yn ogystal â gofynion eraill (er enghraifft, lefelau uchaf amrywiol o fitamin $D_2$ a ganiateir mewn gwahanol gategorïau o fwyd). Mae "Tabl 2" yn rhestru'r holl fwyydd newydd awdurdodedig a'r manylebau cyfatebol.

Mae'r Atodiad (fel y'i diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn) bellach yn cynnwys cofnodion ar gyfer dau fath o bowdr madarch Fitamin $D_2$. Er mai'r un yw'r enw a roddir i'r bwydydd newydd hyn yn yr Atodiad, mae'r manylebau a'r amodau ar gyfer y ddau gofnod yn amrywio. Yn unol â hynny, ymddengys y gellid peri dryswch i rywun sy'n darllen y ddeddfwriaeth wrth benderfynu pa fanyleb ar gyfer powdr madarch Fitamin $D_2$ yn Nhabl 2 sy'n cyfateb i'r amodau perthnasol a'r gofynion eraill ar gyfer ei ddefnyddio sy'n ymddangos yn Nhabl 1.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i gywirio tri offeryn statudol Cymreig i ymdrin â phwyntiau craffu technegol 2, 3 a 5 a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor hwn ar Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi (ym mharagraff 3) y rhoddwyd sylw i'r ddau bwynt craffu technegol arall a nodwyd gan y Pwyllgor yn yr adroddiad hwnnw cyn cyhoeddi'r Rheoliadau hynny.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwyntiau craffu technegol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**19 Ebrill 2023**

# SL(6)345 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Absenoldeb Profedigaeth Rhiant ac Absenoldeb Rhiant a Rennir) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae Rheoliadau 2015 yn darparu na chaiff person gyflawni gwaith penodedig mewn ysgol oni bai ei fod yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig neu'n bodloni'r gofynion yn o leiaf un o'r paragraffau yn Atodlen 3. Gall gweithwyr cymorth dysgu hefyd gyflawni gwaith penodedig mewn ysgol os ydynt yn bodloni'r amodau a nodir yn rheoliad 18A.

Mewn rhai amgylchiadau, gall person gyflawni "gwaith penodedig" dim ond am gyfnod penodedig heb ennill statws athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig. Ar hyn o bryd, bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn ymestyn y cyfnod penodedig mewn amgylchiadau lle mae person yn absennol o'r gwaith o ganlyniad i arfer ei hawl i un o'r hawliau statudol a restrir, sef absenoldeb mamolaeth, absenoldeb rhiant, absenoldeb tadolaeth ac absenoldeb mabwysiadu. Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau 2015 i ychwanegu absenoldeb profedigaeth rhiant ac absenoldeb rhiant a rennir at y rhestr hon.

## Y drefn

Negyddol

Cafodd y Rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.  Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Craffu Technegol

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> *Nid yw Deddf Addysg (Cymru) 2014 yn gosod unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ymgynghori mewn perthynas â'r rheoliadau diwygio arfaethedig. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n agos â Chyngor y Gweithlu Addysg wrth lunio'r rheoliadau diwygio hyn. Ni chynhaliwydymgynghoriad ffurfiol gan nad yw hwn yn bolisi sy'n cael ei ddatblygu, ondyn hytrach yn offeryn i wneud diwygiadau canlyniadol priodol i Reoliadau2015 yn dilyn gwneud Deddf Plant a Theuluoedd 2014 a DeddfProfedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**17 Ebrill 2023**

Eitem 4.1

# SL(6)336 – Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cyflwyno dyletswydd gonestrwydd sefydliadol ar gyrff GIG (gan gynnwys gofal sylfaenol) yng Nghymru lle:

(i) bod person y mae'r corff GIG yn darparu neu wedi darparu gofal iechyd iddo wedi dioddef canlyniad andwyol; a
(ii) bod darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gallai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r person ddioddef y canlyniad hwnnw.

Caiff y Rheoliadau eu gwneud o dan y Ddeddf honno ac maent yn nodi gweithdrefn ("y weithdrefn gonestrwydd") sydd i'w dilyn gan gorff GIG y mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol mewn perthynas ag ef.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 i sicrhau bod y weithdrefn gonestrwydd yn gweithio ar y cyd â'r trefniadau presennol o dan y Rheoliadau hynny.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 4(3)(b) yn cyfeirio at adrannau 3(2) a (3) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Fodd bynnag, nid yw adran 3 o'r Ddeddf honno wedi'i chychwyn eto.

Daeth Erthygl 2 o Orchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 3) 2023 ag adran 4 o'r Ddeddf i rym o 7 Mawrth 2023 (i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau), ond ni chychwynnwyd adran 3 bryd hynny. A all Llywodraeth Cymru nodi pryd y gellir disgwyl gorchymyn cychwyn mewn perthynas ag adran 3?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:**
Bydd adran 3 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cael ei dwyn i rym ar 1 Ebrill 2023 i gyd-fynd â'r dyddiad y daw Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 i rym.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ragor o wybodaeth.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

14 Ebrill 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Mawrth 2023 yn gofyn am ymateb i gwestiynau a godwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 27 Mawrth 2023.

Hoffwn ddiolch i chi am godi'r pwyntiau pwysig hyn, a gobeithio bod fy ateb yn rhoi'r eglurder a'r sicrwydd y gofynnir amdanynt o ran Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023.

**Nodwn fod ymgynghoriad wedi'i gynnal yn ystod hydref 2022. A oes modd i chi:**

**a) Egluro pam na chafodd y Rheoliadau eu gosod gerbron y Senedd tan 9 Mawrth 2023?**

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 16 Rhagfyr 2022 ar ôl estyniad byr i roi cyfle i rai rhanddeiliaid allweddol ychwanegol ymateb. Cawsom dros 130 o ymatebion a thua 1200 o sylwadau.

Cymerodd y rhain amser i'w dadansoddi'n effeithiol ac roedd yn gofyn i ni gyfathrebu â rhai o'r ymatebwyr i drafod eu sylwadau er mwyn sicrhau ein bod yn dehongli'n gywir y diwygiadau defnyddiol a awgrymwyd ganddynt. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cynnwys sefydliadau rhanddeiliaid gofal sylfaenol a BMA Cymru Wales. Yna roedd angen ystyried yr ymatebion yn ofalus a datblygu ymhellach unrhyw ddiwygiadau a wnaed. Er enghraifft, mynegodd BMA Cymru Wales bryderon am y diffyg cydraddoldeb adnoddau rhwng timau cwynion y Bwrdd Iechyd a darparwyr Gofal Sylfaenol, a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar eu gallu i ymateb yn amserol i ddigwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd. Felly, fe wnaethom newid yr amser disgwyliedig ar gyfer ymateb ysgrifenedig i 5 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr hysbysiad uniongyrchol, yn hytrach na'r 2 ddiwrnod gwaith a nodwyd yn flaenorol.

**b. Cadarnhau na anfonwyd canllawiau ynghylch y Rheoliadau at sefydliadau perthnasol tan yr wythnos yn dechrau 20 Mawrth 2023, ac egluro pam?**

Anfonwyd y Canllawiau Statudol terfynol, y deunyddiau ategol a'r Rheoliadau ategol i gyrff y GIG yr wythnos yn dechrau 20 Mawrth 2023; fodd bynnag, dylid nodi bod drafft terfynol wedi'i rannu hefyd ag arweinwyr gweithredol y ddyletswydd gonestrwydd ym mhob corff GIG (Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig) sy'n ffurfio'r Bwrdd Gweithredu ar gyfer y Dyletswyddau Gonestrydd ac Ansawdd ar 24 Chwefror 2023. Mae'r swyddogion gweithredol arweiniol hyn ar gyfer y Byrddau Iechyd hefyd yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rhannu'r cyfrifoldeb am wasanaethau gofal sylfaenol. Yn ogystal mae cynrychiolydd o Raglen Strategol Genedlaethol Cymru ar gyfer gofal sylfaenol yn aelod a rhoddodd gyngor drwy gydol y cyfnod datblygu a gweithredu.

Mae fersiwn ymgynghori'r canllawiau a'r Rheoliadau wedi'u rhannu â holl randdeiliaid a chyrff y GIG ers Medi 2022 a chafwyd sgyrsiau â'r rhanddeiliaid hyn ynghylch cynnwys y canllawiau a'r Rheoliadau trwy gydol y cyfnod hwn.  Parhaodd y model cydweithredol hwn drwy gydol y broses o ddatblygu'r ddyletswydd gonestrwydd yma yng Nghymru. Cymerodd pob sefydliad sy'n cynrychioli contractwyr gofal sylfaenol ran wrth lunio'r canllawiau drwy gyfrwng digwyddiadau rhanddeiliaid dros y 2 flynedd flaenorol.

Cafodd y canllawiau statudol eu rhannu a'u deall gan y cyrff GIG y daeth y ddyletswydd i rym iddynt o 1 Ebrill 2023.

Mae'n bwysig cydnabod bod dyletswydd gonestrwydd yn golygu newid graddol sy'n adeiladu ar y canllawiau Gweithio i Wella presennol a'r Rheoliadau y mae darparwyr gofal sylfaenol a chyrff y GIG wedi bod yn ddarostyngedig iddynt ers 2011.

**c. Egluro pam mae Llywodraeth Cymru yn dymuno i'r Rheoliadau ddod i rym ar 1 Ebrill 2023?**

O ystyried yr amcanion polisi sy'n sail i'r ddwy Dyletswydd, a manteision cysylltiedig dyletswyddau o'r fath ar gyfer y gwasanaeth iechyd a phobl Cymru; penderfynwyd yn briodol i fwrw ymlaen i weithredu'r Dyletswyddau ar 1 Ebrill fel y cynlluniwyd. Dyma oedd y consensws hefyd yn yr adborth gan gyrff y GIG.

**Nid yw'n ymddangos bod cyfnod gweithredu, er mwyn helpu sefydliadau perthnasol i sicrhau bod ganddynt y prosesau cywir a gofynnol ar waith. A oes modd i chi:**

**a). Gadarnhau mai dyma sy'n wir, ac egluro pam?**

Mae rhaglen weithredu helaeth ar y gweill ers 2021 sy'n goruchwylio gwaith paratoi'r GIG, dan arweiniad Grŵp Llywio'r GIG a Llywodraeth Cymru, ac ers Hydref 2022 mae Bwrdd Gweithredu'r GIG wedi bod yn arwain parodrwydd y GIG. Mae'r aelodaeth yn cynnwys prif swyddogion gweithredol o fyrddau Iechyd y GIG, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig, sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu sefydliad yn barod ar gyfer gweithredu'r dyletswyddau Gonestrwydd ac Ansawdd. Mae hwn wedi bod yn fodel hynod lwyddiannus gydag ymgysylltu beirniadol ac arweinyddiaeth angenrheidiol i helpu sefydliadau i sefydlu'r prosesau cywir.

Mae sesiynau hyfforddi ac ymgysylltu sylweddol â rhanddeiliaid ar y gweill ers hydref 2022 i alluogi Byrddau Gweithredol cyrff y GIG a thimau Uwch Reoli i fod yn gwbl barod ar gyfer y ddyletswydd Gonestrwydd sydd ar ddod. Mae holl sefydliadau'r GIG wedi rhoi sicrwydd drwy lythyrau ysgrifenedig at y cyfarwyddwr clinigol cenedlaethol yn Llywodraeth Cymru ac yn ystod eu cyfarfodydd Cyd-dîm Gweithredol (JET) /Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig (IQPD) bod eu paratoadau ar y gweill a'u bod yn hyderus y byddent yn barod i ddechrau'r ddyletswydd ar 1 Ebrill.

Dylid nodi hefyd bod y dyddiad gweithredu wedi cael ei rannu'n gyhoeddus ers mis Medi 2022.

Mae'r cyfuniad o'r pwyntiau hyn yn ateb y cwestiwn pam nad oes cyfnod gweithredu ychwanegol ar ôl i'r Dyletswyddau gael eu deddfu a dod yn gyfreithiol rwymol.

**b. Cadarnhau a ystyriwyd cyfnod o'r fath?**

Ni ystyriwyd bod cyfnod gweithredu yn angenrheidiol gan fod Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â holl Gyrff y GIG trwy eu haelodau gweithredol a rhanddeiliaid allweddol eraill a oedd yn bresennol yn y Bwrdd Gweithredu yn y cyfnod cyn 1 Ebrill 2023. Noder bod Deddf Ansawdd ac Ymgysylltu ag Iechyd a Gofal (Cymru) wedi cael y Cydsyniad Brenhinol ar 1 Mehefin 2020.

**A wnaiff Llywodraeth Cymru sicrhau bod prosesau adolygu ar waith fel y gellir diwygio'r canllawiau perthnasol pe bai unrhyw faterion yn ymwneud â gweithredu'r system newydd yn cael eu nodi, ac a allwch gadarnhau amseriad unrhyw adolygiad o'r fath?**

Mae'r broses adolygu arferol ar waith gyda'r nod o adolygu'r canllawiau 5 mlynedd ar ôl eu gweithredu. Mae cefnogaeth a goruchwyliaeth parhaus ar gyfer cyrff y GIG yn digwydd drwy gyfarfodydd Cyd-dîm gweithredol (JET) Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Gonestrwydd, sydd newydd ei ffurfio, ac mae hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr gofal sylfaenol.
I gloi, rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn wedi ateb yn llawn y cwestiynau a ofynnwyd i'r Pwyllgor gan BMA Cymru Wales a bod sicrwydd digonol wedi'i roi ynglŷn â'r gwaith paratoi gofalus a'r gefnogaeth i sefydliadau'r GIG wrth iddynt roi'r ddyletswydd gonestrwydd ar waith.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

31 Mawrth 2023

Annwyl Eluned

Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023

Yn ein cyfarfod ar 27 Mawrth 2023 ystyriasom Reoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 (y Rheoliadau).

Mae BMA Cymru Wales wedi codi pryderon gyda ni, yn anad dim am ein bod wedi cael gwybod mai dim ond yr wythnos yn dechrau 20 Mawrth 2023 yr anfonwyd canllawiau'n ymwneud â'r Rheoliadau ato ac at sefydliadau eraill, a bod disgwyl i'r Rheoliadau ddod i rym ar 1 Ebrill. 2023.

Mae BMA Cymru Wales hefyd wedi dweud wrthym nad yw'r ymatebion a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses ymgynghori a lywiodd ddatblygiad y Rheoliadau wedi'u cyhoeddi eto.

Cytunwyd y byddem yn gofyn am ragor o eglurder gennych ynghylch datblygiad y Rheoliadau hyn, a byddem yn croesawu cael eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

Nodwn fod ymgynghoriad wedi'i gynnal yn ystod hydref 2022. A oes modd i chi:

a. Egluro pam na chafodd y Rheoliadau eu gosod gerbron y Senedd tan 9 Mawrth 2023?
b. Cadarnhau na anfonwyd canllawiau ynghylch y Rheoliadau at sefydliadau perthnasol tan yr wythnos yn dechrau 20 Mawrth 2023, ac egluro pam?
c. Egluro pam mae Llywodraeth Cymru yn dymuno i'r Rheoliadau ddod i rym ar 1 Ebrill 2023?

Nid yw'n ymddangos bod cyfnod gweithredu, er mwyn helpu sefydliadau perthnasol i sicrhau bod ganddynt y prosesau cywir a gofynnol ar waith. A oes modd i chi:

a. Gadarnhau mai dyma sy'n wir, ac egluro pam?
b. Cadarnhau a ystyriwyd cyfnod o'r fath?

A wnaiff Llywodraeth Cymru sicrhau bod prosesau adolygu ar waith fel y gellir diwygio'r canllawiau perthnasol pe bai unrhyw faterion yn ymwneud â gweithredu'r system newydd yn cael eu nodi, ac a allwch gadarnhau amseriad unrhyw adolygiad o'r fath?

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 17 Ebrill 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# SL(6)340 – Gorchymyn Contractau Adeiladu (Eithrio) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae Rhan 2 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (**y Ddeddf**) yn gwneud darpariaeth o ran telerau contractau adeiladu. Mae adran 106A(2) o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso unrhyw un neu bob un o'r darpariaethau yn Rhan 2 mewn perthynas ag unrhyw ddisgrifiad o gontractau adeiladu sy'n ymwneud â chyflawni gweithrediadau adeiladu penodedig yng Nghymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn datgymhwyso Rhan 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â chontractau prosiect seilwaith penodol yng Nghymru pan fo parti i'r contract yn ymgymerwr carthffosiaeth neu ddŵr, yn ddarostyngedig i ofynion gan gynnwys:

- rhaid bod y contract yn ymwneud â phrosiect a ddynodwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr fel prosiect 'caffael uniongyrchol i gwsmeriaid' (**DPC**) yn unol ag amodau penodiad yr ymgymerwr perthnasol;

- rhaid i'r contract gynnwys gwneud taliadau rheolaidd drwy gyfeirio at gostau gwirioneddol yr eir iddynt ac a ddaw'n ddyledus ar ôl i un neu ragor o rannau o'r gweithrediadau adeiladu ddod i ben ac y gall gyflawni gwasanaeth carthffosiaeth neu ddŵr.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn datgymhwyso adran 110(1A) o'r Ddeddf mewn perthynas â'r math o gontract y cyfeirir ato uchod, pan fo parti i'r contract hwnnw yn ymrwymo i is-gontract. Mae adran 110(1A) o'r Ddeddf yn darparu nad yw'r gofyniad bod contractau yn darparu mecanwaith digonol ar gyfer sefydlu pa daliadau sy'n dod yn ddyledus a phryd o dan y contract yn cael ei fodloni os yw taliad yn amodol ar gyflawni rhwymedigaethau o dan gontract arall.

Mae paragraff 4.4 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai dim ond un prosiect y gallai'r Gorchymyn hwn fod yn gymwys iddo ar hyn o bryd, sef gwaith trin dŵr Cwm Taf Dŵr Cymru.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"4.9. Mae Ofwat wedi nodi na ddylai cwmnïau dŵr dalu'r [Darparwr a Benodir ar sail Cystadleuaeth] ar gyfer y prosiectau hyn nes y byddant wedi cael eu cwblhau a dod yn weithredol fel na fydd rhaid i gwmnïau dŵr (a ariennir gan filiau cwsmeriaid) dalu cyn i'r gwaith gael ei gwblhau a'i gyflawni."*
>
> *"4.11. Bydd gan bartïon sy'n ymrwymo i gaffaeliadau DPC wybodaeth lawn am y telerau, gan gynnwys y ffaith y bydd y taliad hwnnw ond yn dechrau ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau."*

Fodd bynnag, mae erthygl 3(1)(d) o'r Gorchymyn yn dweud, er mwyn i Ran 2 o'r Ddeddf gael ei datgymhwyso, fod yn rhaid i'r contract fodloni'r amod a ganlyn (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> *"(d) mae'r gydnabyddiaeth sy'n ddyledus o dan y contract yn cynnwys, **o leiaf yn rhannol**, daliadau rheolaidd—*
>
> > *(i) sy'n cael eu pennu'n rhannol drwy gyfeirio at gostau gwirioneddol y gweithrediadau adeiladu y mae'r contract yn ymwneud â hwy, a*
> >
> > *(ii) sy'n dod yn daladwy ar ôl i **un rhan o leiaf** o'r gweithrediadau adeiladu hynny gael ei chwblhau ac y gellir cyflawni gwasanaeth carthffosiaeth neu ddŵr."*

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru egluro i ba raddau y mae'n rhaid gwneud taliadau dim ond ar ôl i brosiectau gael eu cwblhau.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**<u>Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:</u>**
Diben fersiwn ddrafft Gorchymyn Contractau Adeiladu (Eithrio) (Cymru) 2023 yw eithrio gwahanol warchodaethau (megis taliadau fesul cam) o gontractau adeiladu perthnasol y byddai'r contractau hynny fel arall yn eu cael o dan Ran 2 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ("y Ddeddf").

Mae adran 110(1A) o'r Ddeddf yn atal unrhyw deler mewn contract adeiladu sy'n gwneud taliad yn amodol ar gyflawni rhwymedigaeth o dan gontract arall.

Yn sgil trefniadau ariannu contractau Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid ("DPC"), dim ond unwaith y bydd o leiaf un cam o'r ased garthffosiaeth neu ddŵr (neu ran ohono) wedi'i gwblhau a'i fod yn gallu gweithredu y bydd y taliad i'r cwmni sydd wedi cyflawni'r seilwaith gan y cwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n comisiynu yn dechrau.

Mae'r cytundeb Darparwyr a Benodir ar Sail Cystadleuaeth ("CAP") ac is-gontractau haen gyntaf yn dod o dan y diffiniad o gontract adeiladu a gallant felly fod yn destun her am beidio â chydymffurfio â'r Ddeddf. Os nad ydynt yn cydymffurfio, byddai darpariaethau talu perthnasol y Cynllun ar gyfer Contractau Adeiladu yn cael eu hymhlygu yn y contract ac yn cael blaenoriaeth dros ddarpariaethau contractau a ddyluniwyd ar gyfer DPC. Byddai hyn yn cael effaith andwyol ar strwythur a gweithrediad y cytundebau DPC hyn.

Mae'r Gorchymyn yn eithrio dau fath o gontract adeiladu o'r Ddeddf:

• Contractau CAP DPC – wedi eu heithrio o holl ofynion Rhan 2 o'r Ddeddf; ac

• Is-gontractau Haen Gyntaf DPC – wedi eu heithrio o adran 110(1A) o'r Ddeddf.

Mae'r holl gontractau adeiladu sy'n weddill drwy'r gadwyn gyflenwi yn parhau yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd i ofyn am ragor o wybodaeth.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/121/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder
a’r Cyfansoddiad

17 Ebrill 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Mawrth ynghylch gwaith craffu’r Pwyllgor ar Orchymyn Contractau Adeiladu (Eithrio) (Cymru) 2023.

Diben y Gorchymyn hwn yw galluogi prosiectau DPC i fod y tu hwnt i rai o ofynion Rhan 2 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (‘y Ddeddf’). Byddai’r eithriad yn cwmpasu’r cytundebau rhwng cwmnïau dŵr a Darparwyr a Benodir ar sail Cystadleuaeth (‘y CAP’) a’r contractau adeiladu rhwng y CAP a’r gadwyn gyflenwi haen gyntaf. Ni fyddai’r eithriad yn gymwys i bartïon cadwyn gyflenwi ail haen a thrydedd haen – bydd y rhain yn parhau i fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau’r Ddeddf.

Caiff prosiectau DPC eu strwythuro mewn ffordd sy'n debyg i Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) Llywodraeth Cymru. Mae cwmnïau dŵr yn prynu gwasanaeth oddi wrth y CAP – sy’n cynnwys dylunio, adeiladu, cyllido, ac (mewn rhai achosion) weithredu a chynnal a chadw ased neu raglen/system o asedau. Yn ystod oes y prosiect DPC telir Ffi CAP i’r CAP sy’n debyg i’r Tâl Gwasanaeth Blynyddol o fewn MIM.

O ganlyniad, ni ddisgwylir i’r CAP gael taliad hyd nes bod y gwaith o adeiladu’r prosiect (neu ran o’r prosiect) wedi cael ei gwblhau ac y gellir darparu gwasanaeth. Gall hyn gynnwys taliad sydd dim ond yn cael ei wneud ar ddiwedd y gwaith o adeiladu’r prosiect, er enghraifft, ond gall hefyd gynnwys taliadau fesul cam pan fo rhannau o brosiectau DPC wedi eu cwblhau ac yn darparu gwasanaeth.

Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i wneud taliad am weithgarwch adeiladu wrth iddo fynd rhagddo ac nid ar ôl cwblhau’r gwaith hwnnw ar ddiwedd y cyfnod adeiladu nac ar ffurf taliadau fesul cam sy’n adlewyrchu cyfnodau gweithgarwch adeiladu. Ni all y strwythur prosiect DPC weithredu hyd nes bod eithriad rhag cymhwyso’r agweddau hyn ar y Ddeddf Adeiladu. Felly, rhaid i’r contractau perthnasol ddod o fewn cwmpas (h.y. diffiniadau) Rhan 2 o’r Ddeddf cyn cael eu heithrio rhag effaith y darpariaethau hynny drwy’r Gorchymyn hwn. Gorchymyn Eithrio ydyw. Gellir deall hyn fel proses dau gam; (i) y contract yn dod o fewn cwmpas Rhan 2 o’r Ddeddf ac yna (ii) cael ei eithrio rhag effeithiau Rhan 2. Felly, nid oes mewn gwirionedd wrth-ddweud rhwng y Gorchymyn a'r Memorandwm Esboniadol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Enghreifftiau o DPC ar waith**

Ymhellach, gall cynllun Ofwat gael ei weithredu â pheth hyblygrwydd sy'n galluogi elfen o daliadau fesul cam os yw'r rhan o'r prosiect sydd wedi cael ei chwblhau yn weithredol ac yn darparu gwasanaeth. Prif amcan y Gorchymyn Eithrio hwn (a Gorchymyn cyfochrog sydd eisoes wedi ei wneud yn Lloegr) yw eithrio darpariaethau llym Rhan 2 o'r Ddeddf a fyddai fel arall yn gymwys.

Er enghraifft, mae prosiect Rhaglen Cydnerthu Traphont Ddŵr Haweswater (HARP) yn Lloegr sydd wrthi yn cael ei gaffael gan United Utilities i'w gyflenwi drwy DPC yn cynnwys disodli chwe rhan o dwnnel y draphont ddŵr bresennol. Mae'r prosiect DPC wedi ei strwythuro i alluogi gwneud taliadau fesul cam pan gwblheir ac y gweithredir pob un o'r rhannau o'r twnnel. Pennir y taliad ar bob cam yn rhannol drwy gyfeirio at gost wirioneddol y gweithrediadau adeiladu. Yn achos prosiect HARP mae hyn yn bosibl oherwydd pan gwblheir pob rhan o'r twnnel bydd o fudd i gwsmeriaid.

Mae prosiect HARP yn costio dros £1bn i gyd ac mae natur y gwaith twnelu yn gymhleth. Mae cwblhau'r prosiect fesul cam yn helpu i'w gyllido.

Mae canllawiau Ofwat ar gyfer prosiectau DPC yn rhagweld y gall fod angen dilyn trywydd gwahanol ar gyfer prosiectau gwahanol ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau ystyried nodweddion penodol eu prosiectau a sut y gellir strwythuro pryd y gwneir taliadau er mwyn cynnig y gwerth gorau i gwsmeriaid.

O ran erthygl 3(d) o Orchymyn Cymru 2023, y bwriad yw darparu digon o fanylion sy'n fodd i nodi contractau perthnasol a'u heithrio rhag Rhan 2 o'r Ddeddf, ond heb osod trefniadau talu a chan gynnig peth hyblygrwydd i gwmnïau dŵr er mwyn rhoi cyfrif am eu trefniadau prosiect-benodol. Felly, mae'r geiriad yn erthygl 3(d) yn cynnwys cyfeiriad at daliadau rheolaidd sy'n cael eu pennu'n rhannol drwy gyfeirio at gostau gwirioneddol y gweithrediadau adeiladu ac sy'n dod yn daladwy ar ôl i un rhan o leiaf o'r gweithrediadau adeiladu gael ei chwblhau ac y gellir cyflawni gwasanaeth.

O ran proses Ofwat mewn perthynas â chaffael a dyfarnu prosiectau DPC, caiff DPC effaith drwy amod yn Offerynnau Penodi ("trwyddedau") cwmnïau dŵr. Cyn y gellir gosod prosiect ar dendr, rhaid i'r prosiect DPC gael ei ddynodi gan Ofwat o dan y drwydded, a rhaid i'r cwmni dŵr gael cydsyniad Ofwat i lansio proses dendro. Rhaid i'r cwmni dŵr hefyd gael cydsyniad Ofwat cyn ymrwymo i gytundeb â darpar CAP ar ddiwedd y broses gaffael.

Wrth benderfynu a ddylid gwrthod cydsynio, ymhlith pethau eraill, mae Ofwat yn ystyried trefniadau masnachol arfaethedig y prosiect a sut maent yn cynnig gwerth am arian i gwsmeriaid, sy'n cynnwys pryd y gwneir unrhyw daliadau i'r CAP.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

31 Mawrth 2023

Annwyl Julie

Gorchymyn Contractau Adeiladu (Eithrio) (Cymru) 2023

Yn ein cyfarfod ar 27 Mawrth 2023 buom yn trafod Gorchymyn Contractau Adeiladu (Eithrio) (Cymru) 2023 (y Gorchymyn drafft).

Gwyddoch fod ein hadroddiad ar y Gorchymyn drafft yn cynnwys un pwynt rhinwedd yn unig yn ymwneud â diffyg eglurder ynghylch yr amser y gellir gwneud taliadau o dan gontract perthnasol. Yn ein cyfarfod, gwnaethom hefyd ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd hwn, a daethom i'r casgliad nad oedd wedi datrys ein pryderon yn llwyr.

Roeddem yn cytuno bod angen rhagor o eglurder, ac felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn darparu'r wybodaeth a ganlyn.

Yn ôl paragraff 4.9 o'r Memorandwm Esboniadol, mae Ofwat wedi pennu na ddylai cwmnïau dŵr, a ariennir gan filiau cwsmeriaid, wneud taliadau am brosiectau adeiladu perthnasol nes ar ôl i'r prosiectau hyn gael eu cwblhau a dod yn weithredol.

Nid yw'n eglur sut y mae erthygl 3(1)(d) o'r Gorchymyn drafft yn cyd-fynd ag amod Ofwat fel y'i disgrifir yn y Memorandwm Esboniadol, oherwydd:

- Caiff contract fod o fewn cwmpas erthygl 3(1)(d) os daw **rhan** yn unig o'r taliad yn ddyledus ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu. Ystyr hyn yw y gall y contract hefyd gynnwys taliad sy'n ddyledus **cyn** bod unrhyw waith adeiladu yn cael ei gwblhau.
- Caiff contract fod o fewn cwmpas erthygl 3(1)(d) os daw taliad yn ddyledus ar ôl cwblhau **un rhan** o'r gweithrediadau adeiladu, ac nid ar ôl cwblhau'r prosiect cyfan yn unig.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Byddem yn croesawu cael eglurhad ynghylch union eiriad amod Ofwat, a sut mae hwn yn rhyngweithio â'r gofynion a nodir yn erthygl 3(1)(d).

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 17 Ebrill 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

30 Mawrth 2023

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Iechyd Planhigion ac Amodau Ffytoiechydol (Gwyfyn Ymdeithiwr y Deri a Phlâu Planhigion) (Diwygio) 2023**

Hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor am y bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Iechyd Planhigion ac Amodau Ffytoiechydol (Gwyfyn Ymdeithiwr y Deri a Phlâu Planhigion) (Diwygio) 2023 ("y Rheoliadau") erbyn 2 Mai 2023.

Cefais lythyr gan yr Arglwydd Benyon, y Gweinidog Bioddiogelwch, Materion Morol a Gwledig, yn gofyn am gydsyniad ar gyfer y Rheoliadau. Bydd y Rheoliadau'n cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 8(5), 17(1), 28(1) a (4), 37(5), 48(5), 105(6) o Reoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ac Atodiad 2 iddo, ynghylch mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion. Mae Erthygl 2a (2) o Reoliad (EU) 2016/2031 yn darparu y gall Rheoliadau o'r fath gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y Rheoliadau'n cyflwyno rheoliad i nodi mesurau yn erbyn y Pla Cwarantin (QP) Prydain Fawr penodol, sef Gwyfyn Ymdeithiwr y Deri (OPM), sy'n ymwneud â chyfyngu’r Pla Cwarantin Prydain Fawr hwnnw i ddiogelu'r ardal heb bla (mae hyn yn gymwys yn Lloegr yn unig). Maent yn cywiro camgymeriad a gyflwynwyd mewn deddfwriaeth ymadael â'r UE ynglŷn â thabl sy'n nodi’r trothwyon tymor tyfu o ran Plâu Di-gwarantin Rheoleiddieig (RNQPs) ar datws hadyd. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyflwyno mân gywiriad i Reoliadau Plâu Planhigion (Awdurdodiadau) (Diwygio) 2022 a fydd yn egluro gofynion penodol ar y cais am darddle’r pla trwyddedig.

Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac mae disgwyl iddo gael ei osod gerbron Senedd y DU ar 2 Mai 2023 gyda dyddiad cychwyn o 24 Mai 2023.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor hwn mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion lle y mae cymhwysedd wedi’i ddatganoli. Mae'r newidiadau mawr a gyflwynir yn y Rheoliadau (y newidiadau OPM) ddim ond yn gymwys i ardal sy’n canolbwyntio ar Lundain ar hyn o bryd. Mae'r newidiadau eraill yn y Rheoliadau yn fân a thechnegol eu natur, yn diwygio deddfwriaeth bresennol ledled Prydain Fawr a byddai unrhyw wahaniaeth mewn rheoliadau rhwng Cymru a Lloegr yn achosi mwy o ddryswch a baich i gyrff cyflawni a’r diwydiant. Ar yr achlysur hwn, rwyf o'r farn nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu’r newidiadau angenrheidiol, ac na fyddai’n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill. Felly, rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-LG-0367-23

Huw Irranca-Davies, AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

Copïau at: Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

3 Ebrill 2023

Annwyl Huw,

**Diwygiadau i Ddeddfwriaeth i ganiatáu newid dulliau Seroteipio Salmonella**

Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn am fy nghydsyniad i wneud yr is-ddeddfwriaeth ar lefel Prydain Fawr sydd ei hangen i ddiwygio 4 darn o ddeddfwriaeth yr UE a ddargadwyd sy'n ymwneud â thargedau ar gyfer gofynion amrywiol o ran samplu a phrofi am Salmonela.

- **Rheoliad 1190/2012** (yn ymwneud â tharged yr Undeb ar gyfer lleihau Salmonela Enteritidis a Salmonella Typhimurium mewn heidiau twrcwn)
- **Rheoliad 517/2011** (yn ymwneud â tharged yr Undeb ar gyfer lleihau seroteipiau penodol o Salmonela mewn ieir dodwy Gallus gallus)
- **Rheoliad 200/2012** (yn ymwneud â tharged yr Undeb ar gyfer Salmonela enteritidis a Salmonella typhimurium mewn heidiau ieir bwyta)
- **Rheoliad 200/2010** (yn ymwneud â tharged yr Undeb ar gyfer lleihau seroteipiau mewn heidiau bridio llawndwf o Gallus gallus)

Bydd y newid bach hwn i'r rheoliadau, a fydd yn cynnwys cyfeiriad at ddull seroteipio ISO – 16140-6, yn galluogi'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) i ddefnyddio'r dull Dilyniannu Genom Cyfan (WGS) fel dull seroteipio Salmonela mewn Dofednod.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae WGS yn darparu llawer  mwy o wybodaeth na dulliau seroteipio confensiynol ac yn datgelu'r cysylltiad rhwng clefydau mewn pobl a chlefydau mewn anifeiliaid sy'n allweddol wrth gynnal ymchwiliadau epidemiolegol.

Mae Labordai Cyfeirio'r UE bellach yn defnyddio WGS, yn ogystal ag awdurdodau iechyd cyhoeddus fel Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) a symudodd i'r dull hwn fwy na 5 mlynedd yn ôl, ar gyfer arunigo Salmonella mewn pobl.

Mae deddfwriaeth yr UE a ddargadwyd ar gyfer rheoli Salmonela mewn dofednod ond yn cyfeirio at ddefnyddio dulliau eraill (ISO-16140-2) o ddarganfod Salmonela, ond nid y dulliau seroteipio (ISO - 16140-6) sydd eu hangen ar gyfer WGS, hynny am nad oedd y bennod ISO honno wedi'i llunio adeg cyhoeddi'r ddeddfwriaeth. O ganlyniad, rhag poeni y byddai defnyddio WGS yn unig yn tramgwyddo'r ddeddfwriaeth, o fis Ionawr 2023, mae APHA wedi cynnwys WGS fel dull ar gyfer seroteipio Salmonela mewn Dofednod **ar y cyd â** dulliau seroteipio confensiynol. Tan y daw'r newidiadau deddfwriaethol i rym, bydd APHA yn parhau i ddefnyddio'r dull seroteipio trymach ei adnoddau.

Er mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol, mewn perthynas â Chymru, mae Rheoliad 2160/2003 (ar reoli salmonela a chyfryngau sŵotig penodedig eraill a gludir mewn bwyd) yn cynnwys pŵer cydredol plws, sy'n caniatáu OS ar lefel Prydain Fawr, os bydd y llywodraeth ddatganoledig berthnasol yn cydsynio i hynny.  Mae Llywodraeth yr Alban wedi gofyn i Lywodraeth y DU ddilyn y trywydd hwnnw. Rwyf wedi ystyried yn llawn y risgiau a'r buddion a ddaw o wneud y diwygiadau deddfwriaethol gofynnol trwy OS ar lefel Prydain Fawr a dw i am roi fy nghydsyniad i hyn am y rhesymau canlynol.

Er mai ein barn gychwynnol yw y dylai pwerau deddfu mewn meysydd datganoledig gael eu harfer gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru yn hytrach na Llywodraeth y DU, bydd gweithio ar y cyd, wrth gwrs, yn fuddiol weithiau a phan fydd, rydym yn gwneud hynny yn unol â chanlyniadau'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhyng-lywodraethol, y cytunwyd arno gan bedair Llywodraeth y DU yn 2022. Roedd yr adolygiad yn ystyried egwyddorion arferion gweithio rhynglywodraethol a seilir ar barch ac ymddiriedaeth, yn ogystal â pharchu pwerau a ddargedwir Llywodraeth y DU a Senedd y DU a chymwyseddau datganoledig Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Adran Weithredol Gogledd Iwerddon a'u deddfwrfeydd.

APHA sy'n seroteipio Salmonela mewn dofednod ar lefel Prydain Fawr ac nid os gwahaniaeth o ran polisi rhyngom a Llywodraethau'r DU a'r Alban yn hyn o beth. Byddai gwneud y newidiadau hyn trwy OS ar lefel Prydain Fawr yn sicrhau bod y newidiadau mân hyn yn y dulliau labordy yn cael cychwyn yn ddifwlch a chyflym ledled y DU, er lles y diwydiant.

Ceir trefniadau llywodraethu cadarn drwy drafodaethau wythnosol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban ar lefel swyddogion i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r diwygiadau hyn mewn ffordd gyson, gan gydnabod bod rhinwedd ceisio cysoni dulliau gweithredu i'r graddau mwyaf posibl, er mwyn osgoi unrhyw bosibilrwydd bod dulliau gwahanol yn cael eu cynnal yn y DU.

Er byddai hyn yn golygu na fyddai OS dwyieithog yn cael ei gynhyrchu, mae'n werth nodi nad yw'r pedwar darn o ddeddfwriaeth sydd angen eu diwygio yn ddwyieithog.

Rwyf felly yn ysgrifennu i roi gwybod i chi fy mod yn rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr Offeryn mewn perthynas â Chymru. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd OS drafft yn cael ei rannu erbyn 31 Mawrth.  Mae disgwyl i'r cais swyddogol am gydsyniad ddod i law ar 17 Ebrill. Y dyddiad gosod disgwyliedig yw 13 Gorffennaf, ac mae'r OS yn destun y drefn negyddol.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau REACH (Diwygio) 2023** |
| **DYDDIAD** | **12 Ebrill 2023** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Rwyf wedi rhoi caniatâd ffurfiol i Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig osod Rheoliadau REACH (Diwygio) 2023 yn Senedd y DU. Mae'r offeryn statudol hwn yn ymestyn y terfynau amser trosiannol ar gyfer cofrestru cemegau presennol gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) gan fusnesau Prydain Fawr yn dilyn Gadael yr UE, o dair blynedd. Pwrpas yr estyniad hwn yw galluogi adolygu a diweddaru y rheolau ar gofrestru, er mwyn lleihau'r costau i fusnesau a darparu data mwy defnyddiol i reoleiddwyr Prydain. Mae'r terfynau amser ar gyfer gwirio coflenni cofrestru gan yr HSE hefyd yn cael eu hymestyn.

Gwneir y Rheoliadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol, wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 140 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021, a pharagraff 1 o Atodlen 21 i Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Dim ond yr Ysgrifennydd Gwladol all arfer y pwerau hyn o wneud rheoliadau i ddiwygio Rheoliadau REACH ac ni all Gweinidogion Cymru na'r Alban eu harfer ar wahân. Fodd bynnag, yn rhinwedd paragraff 3 o Atodlen 21 i Ddeddf yr Amgylchedd 2021 ac Erthygl 4 o Reoliad REACH, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru os, ac i'r graddau, y bydd arfer y swyddogaeth gwneud rheoliadau o fewn cymhwysedd datganoledig (o fewn ystyr adran 58A(7) ac (8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn a'r rhesymau drostynt yn y ddogfen canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus ar gov.uk.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

28 Mawrth 2023

Annwyl Lywydd,

Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol

Yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth, trafododd yr Aelodau yr ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol a gyfeiriwyd at y Pwyllgor ar 14 Mawrth. Gan nad yw'r diwygiadau a nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn gwneud unrhyw newidiadau sylfaenol i fwriad y Bil, nid yw'r Aelodau'n teimlo bod angen gosod adroddiad ychwanegol. Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor achub ar y cyfle hwn i gofnodi ei gefnogaeth o ddefnydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o'r Bil hwn i barhau â'u cefnogaeth i Wcráin a'i phobl.

Gan fod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad hefyd, rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS er gwybodaeth iddo.

Cofion cynnes,

Darren Millar AS
Cadeirydd Dros Dro: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

29 Mawrth 2023

Annwyl Huw

Ym mis Rhagfyr cytunais i roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y Bil Masnach Awstralia a Seland Newydd wrth iddo ddilyn cyfnodau Senedd y DU.

Derbyniodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 23 Mawrth, o dan y teitl swyddogol Deddf Masnach (Awstralia a Seland Newydd) 2023.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Papur Gwyn Diwygio Etholiadol** |
| **DYDDIAD** | **30 Mawrth 2023** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Ym mis Gorffennaf 2021 cyhoeddwyd ein fframwaith ar gyfer Diwygio Etholiadol, ac ym mis Hydref y llynedd, cyhoeddais Bapur Gwyn ar gyfer ymgynghori ar gynigion manwl ar gyfer moderneiddio gweinyddiaeth etholiadol yng Nghymru. Cawsom bron i 150 o ymatebion i'n hymgynghoriad, ac rwy'n ddiolchgar i bob unigolyn a sefydliad rhanddeiliaid a rannodd eu barn ar ein huchelgais i wella iechyd democrataidd.

Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw ac yn awr rwy'n nodi'r camau nesaf ar ein taith i gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth hon i leihau'r diffyg democrataidd yng Nghymru a datblygu system etholiadol ar gyfer y 21ain ganrif.

Rydym yn adeiladu ar yr hyn yr ydym eisoes wedi'i gyflawni, gan gynnwys ehangu'r etholfraint i unigolion 16 ac 17 oed, ac i ddinasyddion tramor cymwys yng Nghymru a chyflwyno set o ddatblygiadau etholiadol arloesol yn yr etholiadau lleol fis Mai y llynedd a ddangosodd y gall arloesi digidol ddatgloi etholiadau mwy effeithiol a hygyrch, heb danseilio cywirdeb.

Mynegodd ymatebwyr ein hymgynghoriad gefnogaeth eang i'n huchelgeisiau a nodir yn y Papur Gwyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid drwy gydol tymor y Senedd hwn wrth i ni fwrw ymlaen â'n cynigion a chyflwyno deddfwriaeth i baratoi ar gyfer yr etholiadau datganoledig mawr nesaf yng Nghymru yn 2026 a 2027. Gwnawn hynny gan ystyried y safbwyntiau a fynegwyd ynghylch sicrhau gwerth am arian, gallu'r awdurdod lleol i gyflawni a'r angen i reoli'n ofalus y gwahaniaethau rhwng etholiadau datganoledig ac etholiadau a gedwir yn ôl – na ddylai fod yn rhwystr i'n hagenda foderneiddio.

Hoffwn dynnu sylw at rai o'r diwygiadau yr ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â hwy yn awr:

- Er mwyn symleiddio cofrestru etholiadol, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i ddylunio a threialu'r broses o gofrestru etholwyr yn awtomatig ar gyfer etholiadau datganoledig.

- Er mwyn cryfhau gweinyddiaeth etholiadol, byddwn yn sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol yn unol â'r Cynigion yn y Papur Gwyn.

- Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â diwygiadau i'r prosesau ar gyfer cynnal arolygon cymunedol ac etholiadol ac ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

- Er mwyn datblygu iechyd democrataidd byddwn yn gwella hygyrchedd etholiadau datganoledig ar gyfer pleidleiswyr anabl drwy osod dyletswyddau ar swyddogion canlyniadau i ddarparu offer i helpu pobl anabl i bleidleisio'n annibynnol, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Etholiadol.

- Byddwn yn gwella diogelwch ymgeiswyr drwy ddeddfu i ehangu ystod y drosedd dylanwad gormodol.

Wrth i ni gyflawni'r newidiadau hyn byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ar ein rhaglen o ddiwygio etholiadol yn y tymor hir. Byddwn yn ceisio cydgrynhoi cyfraith etholiadol i wella eglurder a hygyrchedd, gan gynnwys ailddatgan yr etholfraint ar gyfer etholiadau datganoledig mewn un ddeddf dwyieithog.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diweddariad ar Ddiwygio'r Senedd** |
| **DYDDIAD** | **04 Ebrill 2023** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru** |

Yn fy natganiad blaenorol, a gyhoeddwyd ychydig cyn y Nadolig, ymrwymais i roi diweddariad ar hynt ein gwaith o lunio deddfwriaeth er mwyn datblygu argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd da o ran datblygu manylion y polisi sydd eu hangen i drosi argymhellion y Pwyllgor yn ddarpariaethau deddfwriaethol fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru. Wrth wneud hynny, rydym yn adlewyrchu'r casgliadau y daeth y Pwyllgor Busnes iddynt yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i nodi ar gyfer yr Aelodau y themâu polisi eang sydd wedi'u datblygu ers fy natganiad diwethaf:

- Cynnwys cwotâu rhywedd statudol integredig a threfniadau 'am yn ail' gorfodol ar gyfer rhestrau ymgeiswyr pleidiau.

- Ailgyfansoddi ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, gan ddarparu'r swyddogaethau angenrheidiol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth newydd Cymru allu cynnal adolygiadau parhaus o ffiniau etholaethau'r Senedd.

- Y cyfarwyddiadau y bydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru yn eu dilyn i gynnal ei adolygiadau o'r ffiniau – a hynny o ran yr adolygiad symlach i baru etholaethau cyn etholiad Senedd 2026, adolygiad llawn cyn yr etholiad dilynol, ac adolygiadau cyfnodol parhaus.

- Mesurau mewn perthynas â chasglu a chyhoeddi data am ymgeiswyr sy'n ceisio cael eu hethol i'r Senedd, a chyhoeddi strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant gan bleidiau gwleidyddol.

- Cynyddu'r terfyn o ran nifer y Gweinidogion Cymru o 12 i 17, gyda phŵer i hyn gael ei gynyddu ymhellach i 18 neu 19 gyda chymeradwyaeth y Senedd.

- Cynyddu'r nifer uchaf o Ddirprwy Lywyddion y gellir eu hethol o 1 i 2.

Wrth ddatblygu a llunio deddfwriaeth diwygio'r Senedd, rydym hefyd wedi ystyried nifer o bolisïau cysylltiedig nad oedd yn rhan o argymhellion y Pwyllgor. O ganlyniad, rydym yn archwilio a ddylid cynnwys darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- Gofyniad i ymgeiswyr ddatgan, fel rhan o'u henwebiad, unrhyw aelodaeth o blaid wleidyddol sydd wedi bod ganddynt yn y 12 mis cyn etholiad, yn debyg i'r trefniadau sydd eisoes ar waith ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.

- Gofyniad i ymgeiswyr ac Aelodau'r Senedd fyw yng Nghymru.

- Adolygiad o weithrediad y darpariaethau deddfwriaethol newydd yn dilyn etholiad 2026.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid cyflenwi mewn nifer o fforymau i ystyried y trefniadau gweithredu ar gyfer y diwygiadau hyn a datblygu'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer y dogfennau ategol a fydd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth. Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar y cyd â'r diwygiadau sy'n cael eu datblygu yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol.

Byddaf yn rhoi diweddariad pellach i'r Senedd ar doriad yr haf.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Bil Ardrethu Annomestig Llywodraeth y DU** |
| **DYDDIAD** | **05 Ebrill 2023** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

Treth leol yw ardrethi annomestig sy'n codi mwy nag £1.1 biliwn bob blwyddyn i helpu i ariannu gwasanaethau llywodraeth leol hanfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ystod o ddiwygiadau yn ystod tymor presennol y Senedd. Bydd y rhain yn gwneud newidiadau hanfodol a chadarnhaol i ardrethi annomestig yng Nghymru.

Mae sawl elfen o'r system ardrethi annomestig yn gweithio ar sail debyg ar draws Cymru a Lloegr, ac mae llawer o fusnesau'n gweithredu ar y ddwy ochr i'r ffin. Mae rhai o amcanion Llywodraeth Cymru, o ran polisi a deddfwriaeth, yn cyd-fynd â rhai Llywodraeth y DU. Mae busnesau a thalwyr ardrethi eraill yng Nghymru yn elwa ar ddull gweithredu cyson a thirwedd debyg o ryddhadau ardrethi annomestig, wedi'u teilwra i adlewyrchu ein sylfaen drethu unigryw.

Mae rhai o'r cynigion yn ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar *Ddiwygio Ardrethi Annomestig yng Nghymru*, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer ailbrisiadau amlach a'r mesurau angenrheidiol i'w cefnogi, yn cyd-fynd ag agenda ddiwygio Llywodraeth y DU. Bydd ein cynigion yn cael eu datblygu drwy ddeddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru, lle na fydd gwahaniaeth yn yr amseru a'r cwmpas yn peryglu rhoi talwyr ardrethi yng Nghymru o dan anfantais. Yn ogystal, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar y *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes*, a fydd yn rhoi cyfle newydd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio data cysylltiedig i helpu i ddatblygu polisi ardrethi annomestig yn y dyfodol wedi'i deilwra i Gymru.

Mae cyfle i ddefnyddio Bil Ardrethu Annomestig Llywodraeth y DU i gyflwyno diwygiadau penodol yn gynharach nag a fyddai'n bosibl fel arall pe baem yn defnyddio ein Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) sydd yn yr arfaeth, a lle bydd swyddogaethau newydd yn cael eu rhoi i gyrff Llywodraeth y DU (Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio), i sicrhau na fydd talwyr ardrethi yng Nghymru o dan anfantais. Ar ôl ystyried yr opsiynau a'r dull o gyflawni ein hagenda ehangach ar gyfer diwygio ardrethi annomestig, rwyf wedi

penderfynu mai'r dewis gorau yw gwneud rhai darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil Llywodraeth y DU.

Mae'r darpariaethau sydd wedi'u hestyn i Gymru yn cynnwys pwerau i sefydlu cynlluniau rhyddhad newydd a gwneud rhyddhadau penodol yn gymwys i eiddo ar y rhestr ardrethu canolog a fyddai, pe na bai'n cael ei gynnwys ym Mil Llywodraeth y DU, yn peryglu rhoi talwyr ardrethi yng Nghymru o dan anfantais gymharol. Rydym hefyd wedi ceisio darpariaethau i alluogi gwybodaeth i gael ei rhannu rhwng cyrff Llywodraeth y DU a thalwyr ardrethi ar yr un sail ar draws Cymru a Lloegr. Bydd ei gwneud yn ofynnol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio rannu mwy o wybodaeth â thalwyr ardrethi yn gwella tryloywder a dealltwriaeth o'r system ardrethi annomestig.

Yn ogystal, mae darpariaethau i hwyluso cyfnewid gwybodaeth rhwng CThEF, talwyr ardrethi ac awdurdodau bilio wedi'u hestyn i Gymru i sicrhau ein bod yn gallu elwa ar wireddu'r amcanion a rennir ar gyfer y *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes*. Bydd yn cael ei gweithredu gan CThEF ar draws Cymru a Lloegr, fel y gallwn elwa ar wybodaeth fanylach wrth wneud penderfyniadau polisi, gan gynnwys data treth CThEF, na fyddem fel arall yn gallu cael mynediad atynt.

I helpu i sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau'n adlewyrchu'n llawn flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer ardrethi annomestig, mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU, i sicrhau bod y darpariaethau'n adlewyrchu'r bwriad polisi ar gyfer Cymru. Byddaf yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer dadl yn y Senedd, er mwyn sicrhau y craffir yn briodol ar y mesurau hyn, a bydd angen cydsyniad y Senedd maes o law.

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddatblygu cynigion i gyflwyno'r diwygiadau ehangach a nodwyd yn ein hymgynghoriad, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hynny maes o law.

Mae'r datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod y toriad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Os bydd Aelodau am imi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ar hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diweddariad ar Safleoedd Rheoli Ffiniau** |
| **DYDDIAD** | **05 Ebrill 2023** |
| **GAN** | **Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi** |

Rwy'n cyhoeddi'r datganiad hwn ar ran nifer o gydweithwyr sy'n gyfrifol am wahanol feysydd o fioddiogelwch.

Ar 28 Ebrill 2022 hysbysais y Senedd bod Llywodraeth y DU yn atal y broses o gyflwyno rhagor o safleoedd rheoli ffiniau wrth iddynt gynnal adolygiad gyda'r bwriad o'i gwblhau erbyn yr hydref 2023.

Er bod bioddiogelwch yn gyfrifoldeb datganoledig, mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi bod yn glir ynghylch manteision cydweithio'n gydlynol ar draws y Deyrnas Unedig. Felly, rydym wedi gweithio gyda'r llywodraethau eraill i ddatblygu cynigion ar gyfer cyfundrefn rheoli ffin sy'n seiliedig ar risg er mwyn ymdrin â nwyddau sy'n cael eu mewnforio o wledydd y tu mewn a'r tu allan i'r UE.

Felly, rwy'n falch o'ch hysbysu bod Llywodraeth y DU heddiw wedi cyhoeddi Model Gweithredu Targed y Ffin *drafft* (Saesneg yn Unig) ac mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol iddo.

Y garreg filltir gyntaf a gynigir o ran rhoi'r Model ar waith yw cyflwyno ardystiad iechyd ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion risg ganolig, a bwyd a phorthiant risg uchel nad ydynt yn deillio o anifeiliaid, sy'n cael eu mewnforio o'r UE o 31 Hydref 2023. Ar yr un pryd, yng Nghymru byddwn hefyd yn cyflwyno'r gofyniad i rag-hysbysu ar gyfer rhai categorïau ychwanegol o nwyddau iechydol a ffotoiechydol sy'n cael eu mewnforio o Weriniaeth Iwerddon, gofyniad sydd eisoes ar waith mewn mannau eraill ym Mhrydain Fawr ers mis Ionawr 2022.

Bydd yr ail garreg filltir yn cynnwys cyflwyno gwiriadau o ddogfennau a gwiriadau ffisegol o gynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion risg ganolig, a bwyd a phorthiant risg uchel nad ydynt yn deillio o anifeiliaid, sy'n cael eu mewnforio o'r UE. Yn Lloegr bydd y rhain yn dechrau o ddiwedd Ionawr 2024.

Mae cyflwyno mesurau rheoli ffin ar gyfer nwyddau sy'n cyrraedd Cymru o Ogledd Iwerddon yn rhyngweithio â'r rheolau newydd ynghylch mewnforion o ynys Iwerddon yn dilyn Fframwaith Windsor. Felly, nid yw Llywodraeth Cymru eto wedi cytuno ar ddyddiad ar gyfer rhoi'r gwiriadau ffisegol ar waith. Yn hytrach, bydd yr amserlen ar gyfer yr holl borthladdoedd ar arfordir y gorllewin yn cael ei chadarnhau pan fydd y Model Gweithredu Targed y Ffin terfynol yn cael ei gyhoeddi. Rydym wedi ymrwymo i roi digon o rybudd i fasnachwyr, porthladdoedd a phartneriaid cyflenwi o'r newidiadau, felly mae'r Model Gweithredu Targed drafft yn cadarnhau na fydd y gwiriadau ffisegol yn cael eu cyflwyno tan o leiaf chwe mis ar ôl cyflwyno gofyniad i rag-hysbysu, i sicrhau fod popeth yn gweithio'n llyfn o'r cychwyn ar y pwyntiau mynediad hanfodol hyn.

Rwy'n sylweddoli bod hyn yn golygu y bydd Cymru'n cyflwyno'r gwiriadau hyn ar ôl i'r rhan fwyaf o borthladdoedd Lloegr wneud hynny ar 31 Ionawr 2024. Mae bioddiogelwch yn parhau i fod yn bwysig i ni, felly byddwn yn ystyried cadw rhai o'r gwiriadau presennol o blanhigion ac anifeiliaid risg uchaf yn y cyfamser. Fodd bynnag, mae'r risg o'r mewnforion o Iwerddon yn y cyfnod byr hwn yn gymharol isel yn y tymor byr.

Rwy'n gobeithio y bydd rhanddeiliaid ym mhob man yn cymryd amser yn ystod yr wythnosau nesaf i ystyried y cynigion hyn. Byddaf wrth gwrs yn darparu diweddariad pellach pan fydd fersiwn derfynol Model Gweithredu Targed y Ffin yn cael ei gyhoeddi.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso i sicrhau bod risgiau bioddiogelwch, iechyd y cyhoedd a diogelwch bwyd yn cael eu rheoli'n effeithiol, ac rwy'n benderfynol y dylai busnesau ac eraill dderbyn digon o amser i baratoi.

Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau am y Safleoedd Rheoli Ffin newydd fydd eu hangen i wasanaethu porthladdoedd fferi Cymru yn fuan, a gallaf gadarnhau bod y gwaith i baratoi ar gyfer safle rheoli ffin yng Nghaergybi wedi cychwyn.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am arian i dalu costau llawn sefydlu rheolaethau'r ffin. Pan fo'r Model Gweithredu Targed yn cyfeirio at fuddsoddiad o £1bn yn y DU dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant, rwy'n deall bod hyn yn cynnwys ystod o feysydd cysylltiedig ond nid yw'n cynnwys costau safleoedd rheoli ffin yng Nghymru.

Mae'r datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi gwybod i'r aelodau. Os bydd aelodau am i mi wneud datganiad pellach neu i ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd byddwn yn hapus i wneud hynny.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

E-bost - Llywydd@senedd.cymru

11 Ebrill 2023

Annwyl Elin

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Dioddefwyr a Charcharorion i Dŷ'r Cyffredin ar 29 Mawrth 2023.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch dioddefwyr ymddygiad troseddol ac eraill y mae ymddygiad troseddol wedi effeithio arnynt; ynghylch penodi unigolion i weithredu fel eiriolwyr cyhoeddus annibynnol dros y rhai a ddioddefodd ddigwyddiadau mawr, a swyddogaethau'r unigolion hynny; ynghylch diwygiadau i'r system barôl ac aelodaeth a swyddogaethau'r Bwrdd Parôl; ar gyfer gwahardd rhai carcharorion rhag priodi neu ymgymryd â phartneriaeth sifil; ac ar gyfer dibenion cysylltiedig.

Mae fy swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y cymalau y disgwylir eu cyflwyno fel rhan o'r Bil. Fodd bynnag, nid oedd swyddogion wedi cael gweld fersiwn derfynol y Bil, newidiadau hwyr i'r Bil na'r Nodiadau Esboniadol cyn iddo gael ei gyflwyno, nac wedi cael gwybod bod teitl y Bil a'r darpariaethau wedi'u newid i 'Bil Dioddefwyr a Charcharorion'. Mae nifer o ddarpariaethau ychwanegol hefyd wedi'u cynnwys yn y Bil ers cyhoeddi'r copi drafft cyntaf.

Mae'r Bil yn cynnwys 4 rhan ac mae'n 64 tudalen o hyd. O'n dadansoddiad cychwynnol, mae'n ymddangos fod y Bil yn cyffwrdd â meysydd o gymhwysedd datganoledig. Ond oherwydd ymgynghori cyfyngedig iawn ymlaen llaw gan Lywodraeth y DU, ni fu modd ystyried yn llawn eto beth fyddai canlyniadau'r cynigion i ddatganoli.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac unrhyw ddatganiadau perthnasol eraill gerbron y Senedd cyn gynted ag y bydd gennym ddarlun clir o ganlyniadau’r ddeddfwriaeth arfaethedig i ddatganoli; fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd hyn y tu hwnt i’r terfyn amser arferol o bythefnos o dan Reol Sefydlog 29. Ni ddisgwylir i’r Bil symud drwy'r Senedd yn gyflym, ac nid yw’r ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin wedi’i gyhoeddi eto.

Rwy'n anfon copi o’r Llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, Lesley Griffiths AS a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS.



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

cc. Mark Isherwood
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

18 Ebrill 2023

Annwyl Huw,

**Bil Caffael Llywodraeth y DU – memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol**

Diolch ichi am yr adroddiad ynghylch Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol 3, 4 a 5 Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Caffael a osodwyd gerbron y Senedd ar 14 Mawrth.

Ymatebais i'r pwyntiau a godwyd gennych yn eich argymhellion yn ystod y ddadl ar y Bil Caffael yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mawrth. Diolch ichi hefyd am eich llythyr dyddiedig 11 Ebrill yn gofyn am ymateb ysgrifenedig. Rwyf yn falch o'i rannu â chi isod.

**Argymhelliad 1.**
Dylai'r Gweinidog esbonio ei rhesymau pam y mae'n fodlon bellach ar y diffyg pwerau cychwyn i Weinidogion Cymru yn y Bil, pan mai'r nod gwreiddiol oedd ceisio gwelliant i sicrhau'r pwerau hynny.

Pan wnaethpwyd y penderfyniad i ymuno â Bil Llywodraeth y DU, ystyriwyd bod pwerau cychwyn cyfatebol yn fodd o liniaru risgiau pe byddai gan Weinidogion Cymru unrhyw bryderon ynghylch y Bil neu rannau ohono. Nid dyma'r achos gan fod y Bil, ar y cyfan, wedi'i lunio ar y cyd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU.

Er nad oes gan Weinidogion Cymru bwerau cychwyn, yn dilyn trafodaethau manwl, rydym wedi sicrhau bod rhaid i Lywodraeth y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cychwyn y darpariaethau ar gyfer Awdurdodau Contractio Cymru. Mae'r cytundeb hwn yn sicrhau bod ein sefyllfa gyfansoddiadol yn cael ei gwarchod.

Ystyriaf fod y datrysiad hwn yn un priodol gan fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gychwyn darpariaethau'r Bil ar yr un pryd er mwyn osgoi'r effeithiau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

niweidiol ar gyflenwyr a phrynwyr trawsffiniol a allai fod ynghlwm wrth beidio â gwneud hynny. Mae gan y darn unigryw hwn o ddeddfwriaeth elfennau trawsffiniol sylweddol gydag effeithiau ar brynwyr a chyflenwyr pe byddai Cymru a Lloegr yn cychwyn ar adegau gwahanol. Rydym am osgoi unrhyw risg lle gallai cyflenwyr o Gymru fod o dan anfantais wrth geisio am gontractau a'u cyflawni a hynny oherwydd oedi a achosir yn sgil y ffaith bod Cymru a Lloegr wedi cychwyn y ddeddfwriaeth ar adegau gwahanol.

Mae'r mater hwn wedi'i drafod sawl gwaith ar lefel swyddogion a gweinidogion. Cytunwyd ar y cyd ei bod yn hollbwysig bod y darpariaethau yn cychwyn ar yr un pryd.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos â swyddogion Swyddfa'r Cabinet er mwyn sicrhau bod Rheoliadau Cymru a Lloegr yn gallu cychwyn ar yr un pryd.

**Argymhelliad 2.**
Dylai'r Gweinidog nodi asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau'r weithred o wrthod rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU gychwyn darpariaethau'r Bil mewn perthynas ag awdurdodau contractio Cymru, ac asesiad o benderfyniad dilynol Llywodraeth y DU i ddileu'r darpariaethau hynny o'r Bil.

Effaith cymal 123 yw bod rhaid i Lywodraeth y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn eu bod yn gallu cychwyn darpariaethau yn y Bil sy'n rheoleiddio prosesau caffael ar gyfer Awdurdodau Contractio Cymru. Os bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad, bydd y ddeddfwriaeth yn dod i rym ar yr un pryd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, pe byddai Gweinidogion Cymru yn atal cydsyniad, gallai hyn olygu oedi posibl i Awdurdodau Contractio Cymru o ran prosesau cychwyn.

O ganlyniad, byddai Cymru a Lloegr yn gweithredu trefniadau deddfwriaethol ar wahân, gyda'r rheolau caffael presennol yn parhau i fod yn gymwys i Awdurdodau Contractio Cymru. Byddai hyn yn creu anghysondeb ac ansicrwydd i Awdurdodau Contractio a chyflenwyr yng Nghymru, yn benodol i'r rhai hynny sy'n cynnal busnes ar draws ffiniau.

Mae fy swyddogion felly o'r farn y byddai goblygiadau gweithredol anfwriadol o ran cychwyn ar adeg wahanol i Loegr. Dyma'r rheswm felly dros y ffaith ein bod wedi ymrwymo i gychwyn ar yr un pryd â Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 3.**
Dylai'r Gweinidog nodi goblygiadau ariannol posibl cymal 123, fel y'i diwygiwyd, i Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gychwyn darpariaethau'r Bil ar yr un pryd er mwyn osgoi'r effeithiau niweidiol ar gyflenwyr a phrynwyr trawsffiniol a allai fod ynghlwm wrth beidio â gwneud hynny. Fodd bynnag, pe byddai Gweinidogion Cymru yn atal cydsyniad ar gyfer dyddiad cychwyn rhai o ddarpariaethau'r Bil, gallai hyn olygu oedi posibl i Awdurdodau Contractio Cymru o ran prosesau cychwyn.

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl cynnal asesiad ariannol gan y byddai'r effeithiau ariannol yn ddibynnol ar hyd cyfnod yr oedi. Byddai unrhyw oblygiadau ariannol a gweithredol o gychwyn ar adeg wahanol i Loegr yn cael eu pennu ar yr adeg honno a byddent yn cael eu hystyried yn llawn gan Weinidogion Cymru cyn bod unrhyw benderfyniadau ynghylch atal cydsyniad yn cael eu gwneud.

Yn eich llythyr dyddiedig 11 Ebrill, gwnaethoch hefyd ofyn a oeddwn wedi uwchgyfeirio'r pryderon sy'n ymwneud â chymalau 89 a 92 y Bil drwy'r Broses Osgoi a Datrys Anghydfodau. Os nad oeddwn wedi gwneud hynny eto, gofynnwyd imi roi rheswm am hynny.

O safbwynt polisi, ni fyddai'r newidiadau y byddai'r pwerau hyn yn eu hachosi yn rhai dadleuol. Fodd bynnag, mae'r defnydd o bwerau cydredol yn creu bygythiad i egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol ac i'n setliad datganoli.

Gobeithiwn y bydd Llywodraeth y DU yn cydnabod cryfder teimladau'r Senedd ynghylch y materion o bryder sy'n weddill ac y bydd yn cyflwyno gwelliant yn y cyfnod Adrodd i wella'r Bil er mwyn sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu newid yn rhai cydredol plws.

Fel y cydnabuwyd yn yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol, cam olaf un yw'r strwythurau datrys anghydfodau rydych chi'n eu crybwyll. Byddwn yn parhau ar bob cyfle i ddatgan ein pryderon am y Bil gyda Llywodraeth y DU, gan ddefnyddio'r gyfres lawn o brosesau rhynglywodraethol sydd ar waith, gan gydnabod bod prosesau uwchgyfeirio ar gael os oes eu hangen.

Hyderaf fod yr ymateb hwn yn ddefnyddiol. Os oes angen unrhyw beth pellach arnoch chi, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a fydd hefyd â diddordeb mewn gweld fy ymateb.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

11 Ebrill 2023

Annwyl Rebecca,

Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Caffael

Diolch am eich ymateb cychwynnol, a roddwyd yn ystod y ddadl ddiweddar yn y Senedd ar gynigion cydsyniad deddfwriaethol, i adroddiad diweddaraf fy Mhwyllgor ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd mewn perthynas â Bil Caffael Llywodraeth y DU. Mae'r adroddiad, a osodwyd ar 14 Mawrth 2023, yn cynnwys tri argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'n destun siom, felly, na chafwyd ymateb ysgrifenedig ffurfiol gan y Llywodraeth cyn y ddadl, o ystyried bod pythefnos wedi mynd heibio ers i'r adroddiad gael ei osod. Credaf y byddai hyn wedi cyfoethogi'r ddadl yn fawr, ac y byddai wedi rhoi eglurder mawr ei angen ar rai o'r materion cymhleth sy'n cael eu hystyried yn y memoranda.

Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech nodi eich ymatebion ysgrifenedig i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad cyn gynted â phosibl, ac o fewn pythefnos i'r llythyr hwn.

Yn ystod y ddadl, gofynnais ichi hefyd a oeddech wedi uwchgyfeirio eich pryderon ynghylch y pwerau i wneud rheoliadau yng nghymal 89 o'r Bil (i ychwanegu cytundebau rhyngwladol at y rhestr yn Atodlen 9) ac yng nghymal 92 o'r Bil (i ymdrin â chanlyniadau caffael anghydfodau masnach) drwy'r Broses rynglywodraethol ar gyfer Osgoi a Datrys Anghydfodau. Byddwch yn cofio i chi ddweud, mewn ymateb i adroddiad fy Mhwyllgor ar y memorandwm cyntaf a'r ail femorandwm a osodwyd mewn perthynas â'r Bil, nad oedd yn bosibl nac yn briodol darogan pryd y byddai perthnasau'n methu i'r pwynt lle dylid ystyried defnyddio mecanweithiau datrys anghydfodau. Fodd bynnag, ddywedsoch yn ystod y ddadl fod y materion sy'n peri pryder i chi yn y Bil " yn fygythiad i egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol a'n setliad datganoli", felly nid yw'n glir pam nad yw'n

ymddangos eich bod wedi uwchgyfeirio'r pryderon hyn eto, gan y bydd y darpariaethau hyn ar y llyfr statud cyn bo hir.

Byddwn yn ddiolchgar felly hefyd pe gallech gadarnhau a ydych bellach wedi uwchgyfeirio'r pryderon hyn drwy'r Broses Osgoi a Datrys Anghydfodau, ac os nad ydych wedi gwneud hynny eto, pe byddech yn esbonio pam.

Yn olaf, nodaf eich sylwadau ynghylch y cyfleoedd sydd ar gael i'r Senedd gynnal gwaith craffu (paragraffau 458–459 o'r trawsgrifiad), ond hoffwn achub ar y cyfle hwn i'ch atgoffa nad yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol na'r rheoliadau a wneir o dan y Bil (ar ôl ei ddeddfu) yn cynnig yr un amser na'r un cyfle manwl i gynnal gwaith craffu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid â'r hyn a geir yn achos Bil a gyflwynir i'r Senedd gan Lywodraeth Cymru.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Y Pwyllgor Cyllid
—
Finance Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@Senedd.Cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

19 Ebrill 2023

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Ymgysylltu

Yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth 2023, trafododd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ei raglen ymgysylltu ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, sydd ar ddod, cyn dadl flynyddol y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant, a drefnwyd ar gyfer 12 Gorffennaf. Rwy'n ysgrifennu at Gadeirydd pob pwyllgor pwnc i rannu ein syniadau. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi yn yr hydref. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiad i randdeiliaid, grwpiau ffocws a gynhelir gyda'r cyhoedd, a gweithdy gydag aelodau o'r Senedd Ieuenctid.

## Digwyddiad i randdeiliaid: Wrecsam

Bydd digwyddiad rhanddeiliaid eleni yn cael ei gynnal ar gampws Prifysgol Glyndŵr (Canolfan Catrin Finch) yn Wrecsam fore Iau 15 Mehefin. Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle i'r Pwyllgor glywed yn uniongyrchol gan sefydliadau/unigolion sydd â diddordeb ar y cynigion disgwyliedig yn y gyllideb ddrafft, yn ogystal â'u safbwyntiau ar ddull Llywodraeth Cymru o bennu'r gyllideb a blaenoriaethu adnoddau. Gan fod gwaith ar draws y pwyllgorau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y gyllideb yn hanfodol ar gyfer gwaith craffu effeithiol, hoffwn wahodd Cadeiryddion y Pwyllgorau neu Aelod o bob Pwyllgor i ymuno â'r digwyddiad.  Os oes gan Gadeiryddion neu Aelodau ddiddordeb mewn

dod i'r digwyddiad, dylech gysylltu â'r tîm clercio erbyn 22 Mai, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: SeneddCyllid@Senedd.Cymru.

### Ceisio barn y cyhoedd yng Nghymru drwy gynnal grwpiau ffocws ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion

Ar ran y Pwyllgor, bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn y Senedd yn cynnal cyfres o grwpiau ffocws cyhoeddus ar y gyllideb ddrafft. Mae'r tîm wedi cynnal ymarferion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf, a nod y gwaith hwn yw llunio astudiaeth hydredol a fydd yn caniatáu i'r Pwyllgor fonitro safbwyntiau ac agweddau dros amser. Deuir o hyd i gyfranogwyr drwy sefydliadau partner tebyg er mwyn cael yr un ddemograffeg â'r hyn a gafwyd y llynedd, a bydd grwpiau'n cael eu trefnu i ganolbwyntio ar feysydd polisi penodol. Bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn rhannu dyddiadau'r sesiynau â phob Pwyllgor, ar gyfer unrhyw Aelod sydd am gymryd rhan. Bydd hyn yn gyfle i Aelodau glywed yn uniongyrchol gan ddinasyddion Cymru ynghylch lle y dylid blaenoriaethu gwariant.

### Senedd Ieuenctid Cymru

Y llynedd, i ategu ein gwaith ymgysylltu ymhellach, cynhaliodd y Pwyllgor weithdy gydag Aelodau o'r Senedd Ieuenctid. Roedd y profiad o glywed yr Aelodau ifanc hyn yn siarad yn agored am y materion sy'n ymwneud â nhw ac sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt yn hynod fuddiol. Rydym yn awyddus i barhau i adeiladu ar y gwaith amhrisiadwy hwn, a byddwn yn gwahodd yr Aelodau ifanc i gymryd rhan mewn gweithdy eto eleni.

### Dadl y Pwyllgor Cyllid yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru

Fel y soniwyd uchod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 12 Gorffennaf ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Bydd canlyniadau ein gwaith ymgysylltu yn llywio'r ddadl honno ac yn bwydo i mewn iddi, a dyma fydd y cyfle gorau i ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei llunio yn yr hydref. Fel bob amser, byddem yn croesawu cyfranogiad Cadeiryddion y Pwyllgorau, ynghyd â'r Aelodau eraill, fel rhan o'r ddadl hon, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau a blaenoriaethau Pwyllgorau'r Senedd yn llywio cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

### Y dull o graffu ar y Gyllideb

Byddaf yn ysgrifennu at y Cadeiryddion cyn hir ynglŷn â dull y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb, gan gynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriad a'r amserlen ar ôl i'r Trefnydd roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ceisio sicrhau bod proffil ac effeithiolrwydd y gwaith craffu a wneir ar y gyllideb yn y Senedd yn destun gwella parhaus, a bod y cyhoedd yng Nghymru yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r broses honno. Fel y gwyddoch, rydym ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar gynigion i ddiwygio'r Protocol ar gyfer Proses y Gyllideb, sy'n amlinellu'r

ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a’r Senedd o ran y trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft flynyddol a materion eraill sy’n gysylltiedig â’r gyllideb.

Yn ogystal, yn ystod cylch cyllideb y llynedd, cytunodd y Pwyllgor i ymgynghori â’r pwyllgorau eraill ar y ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â’i chynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, gyda’r bwriad o geisio gwella’r wybodaeth sy’n cael ei darparu. Ysgrifennais at y Cadeiryddion ar y mater hwn ar 8 Mawrth, ac rwy’n ddiolchgar i’r pwyllgorau sydd wedi ymateb. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i’r pwyllgorau am y datblygiadau sy’n dod i’r amlwg.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

19 Ebrill 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ar 23 Mawrth ynghylch Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 4).

Er fy mod yn siomedig nad oedd eich Pwyllgor wedi gallu adrodd ar Femorandwm Rhif 4, rwy'n cydnabod yr heriau sy'n wynebu pob Pwyllgor o ran ystyried memoranda o fewn cyfnodau adrodd mor fyr. Rwy'n llwyr werthfawrogi felly ymrwymiad eich Pwyllgor i ymateb i derfynau amser caeth lle bynnag y bo'n bosibl, fel gyda'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol diweddar ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio).

Mae'r anawsterau o ganlyniad i awydd Llywodraeth y DU i wthio Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir drwy Senedd y DU, ynghyd â'r diffyg ymgysylltu blaenorol ar ddiwygiadau, wedi golygu bod craffu ar Femorandwm Rhif 4 bob amser yn debygol o fod yn broblemus. Roedd fy ymdrechion parhaus i aildrefnu dadleuon a dyddiadau adrodd yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i alluogi i'r Senedd gael cymaint o gyfle â phosibl i graffu. Er fy mod yn cydnabod y tro hwn nad oedd symud dyddiad y ddadl a'r dyddiad adrodd o fudd i'r Pwyllgor yn y pen draw, rwy'n gobeithio y gellir gweld bod y camau hyn wedi'u cymryd yn gwbl ddidwyll.

Rwy'n ymwybodol o'r anawsterau sy'n wynebu'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn ystod cyfnodau olaf Biliau Seneddol ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r Senedd i leihau'r anawsterau hyn. Fel y gwyddoch, pan nad yw Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â ni, gall ystyried a yw darpariaeth yn 'berthnasol' at ddibenion Rheol Sefydlog 29 gymryd amser; byddwn yn rhoi diweddariad i'r Senedd cyn gynted ag y bydd ein dadansoddiad wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, mae'r holl ddiwygiadau sydd wedi'u cyflwyno mewn perthynas â Biliau'r DU ar gael yn gyhoeddus yn https://bills.parliament.uk.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn parhau i fonitro diwygiadau i Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir ac yn ceisio gosod unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol angenrheidiol yn unol â’r Rheolau Sefydlog. Ar amser ysgrifennu’r llythyr hwn, does dim dyddiad cyhoeddi ar gyfer Cyfnod Adrodd Tŷ’r Arglwyddi, ond ar hyn o bryd rydym yn disgwyl y bydd yn cael ei gynnal tua chanol mis Mai.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol ac at y Llywydd.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru,
a'r Trefnydd

23 Mawrth 2023

Annwyl Lesley,

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4)

Yn ein cyfarfod yr wythnos hon, gwnaethom drafod eich llythyr dyddiedig 17 Mawrth 2023, lle gwnaethoch ddweud wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi symud y ddadl yn y Senedd ynghylch cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) o 21 Mawrth i 28 Mawrth 2023. Rydych yn nodi bod hyn yn bosibl am fod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi yn dechrau ar 19 Ebrill.

Rydych hefyd yn nodi, gan ei bod yn bosibl symud y ddadl, y byddech yn argymell terfyn amser diwygiedig ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 27 Mawrth, a'ch bod yn "gobeithio bod yr amser ychwanegol hwn yn caniatáu i'ch Pwyllgor ystyried Memorandwm Rhif 4".

Gwnaethom nodi bod Memorandwm Rhif 4 wedi ei osod yn ein cyfarfod ar 13 Mawrth 2023 a byddwch yn ymwybodol inni ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes, gan nodi nad oedd yr amserlen hon, yn ein barn ni, yn ymarferol i roi ystyriaeth ofalus a manwl i Femorandwm Rhif 4 a llunio adroddiad a allai lywio'r ddadl yn y Senedd ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil mewn modd ystyrlon a defnyddiol.

Rwyf o'r farn ein bod wedi dangos droeon y byddwn ni bob amser yn anelu at ymateb yn gadarnhaol i derfynau amser tynn. Fodd bynnag, nid yw oedi dadleuon fesul tipyn a gohirio terfynau amser adroddiadau o reidrwydd yn helpu nac yn galluogi fy Mhwyllgor (nag unrhyw un o Bwyllgorau eraill y Senedd, mae'n debyg) i gynllunio a chyflawni ein swyddogaeth graffu yn effeithiol, ac yn aml mae'n arwain at golli cyfleoedd.

Rydym yn gwerthfawrogi bod amserlen fusnes Senedd y Deyrnas Unedig y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, ac efallai bod Llywodraeth Cymru ei hun yn gorfod addasu ei rhaglen waith a’i thasgau allweddol mewn perthynas â'r Bil hwn. Rydym wedi dweud droeon bod diffyg rheolaeth dros y broses ddeddfwriaethol yn un o ddiffygion difrifol y sefyllfa sydd ohoni lle mae senedd wahanol yn deddfu dros Gymru ar faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Deallwn nad yw'r gwelliannau i'r Bil yr ymdrinnir â hwy ym Memorandwm Rhif 4 yn newid argymhelliad Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylai'r Senedd roi ei chydsyniad ar gyfer y Bil. Nodwn mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod “y Bil yn parhau i gyflwyno’r un pryderon cyfreithiol, cyfansoddiadol, polisi ac ymarferol.”

O ystyried nad yw'r Bil wedi cwblhau’r Cyfnod Adrodd yn Nhŷ’r Arglwyddi eto, rydym yn ymwybodol y gellid ei ddiwygio ymhellach, ac y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol ychwanegol yn sgil unrhyw ddiwygiadau o'r fath.

Byddwch yn ymwybodol inni ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol ar 8 Mawrth 2023 i fynegi ein pryderon y dylai Llywodraeth Cymru, pan fo Biliau sy’n destun memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn agosáu at ddiwedd y broses graffu yn Senedd y DU, wneud rhagor i sicrhau bod y Senedd yn cael gwybodaeth hollbwysig mewn modd mwy amserol.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn cael gwybod y bwriedir cyflwyno gwelliannau perthnasol yn Senedd y DU at ddibenion trafodion y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ’r Arglwyddi, byddem yn croesawu cael rhybudd cynnar o hynny, hyd yn oed pe bai’r rhybudd hwnnw’n dod cyn gosod unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol angenrheidiol gerbron y Senedd. Gallai hynny fod yn ffordd o sicrhau ein bod yn cael amser i ystyried y datblygiadau a’r diwygiadau i'r Bil sy'n newid yn gyflym, ac i gynllunio sut y gallwn gyflwyno adroddiad i'r Senedd.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a’r Llywydd.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon